


# Ysgol Gymraeg Cwmbrân

Ffordd Henllys,
Cwmbrân,
Torfaen
NP44 4HB

Ffôn: 01633 483383
Ffacs: 01633 485178
www.ysgolgymraegcwmbran.co.uk

**Cwrs Hyfforddiant Beicio 2018 / Cycle Proficiency Training 2018:**

Annwyl Riant / Warchodwr,

Rydym wedi penderfynu cynnig cwrs beicio'n ddiogel i ddisgyblion blwyddyn 6 sydd â diddordeb mewn cymryd rhan. Bydd y gwersi beicio yn digwydd ar ôl ysgol ar nos Iau rhwng **3:30 a 4:30**. (Gweler y dyddiadau isod) Ar ddiwedd y cwrs, bydd Swyddog Diogelwch Ffordd Torfaen yn dod i'r ysgol i brofi'r disgyblion.

Trosodd, ceir rhestr o reolau y gofynnwn i'r disgyblion, a chi fel rhieni / gwarchodwyr, eu dilyn er mwyn i ni sicrhau bod y diwrnodau hyfforddiant yn llwyddiannus. Ar y diwrnodau y rhestrir isod, gofynnwn yn garedig i chi ddod â'r beiciau i'r ysgol yn y bore a'u clymu yn y man beicio. Yn anffodus, ni allwn gymryd unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw ddifrod sy'n digwydd i'r beiciau ar dir yr ysgol. Rhaid i bob beic gael brêc sy'n gweithio a rhaid i'r disgyblion ddod ag helmed addas ar gyfer gwneud y cwrs.

Os hoffech i'ch plentyn gymryd rhan yn yr hyfforddiant, gofynnwn yn garedig i chi ddarllen y rheolau trosodd ac arwyddo ar y gwaelod. Gofynnwn am hwn yn ôl erbyn dydd Gwener, os gwelwch yn dda.

Dear Parent / Guardian,

We've decided to offer a cycling proficiency course for pupils in year 6 who choose to take part. The training will take place after school on a Thursday between **3:30 and 4:30**. At the end of the course, Torfaen's Safety Officer will be coming to the school to test the pupils. Overleaf is a list of rules and regulations that we ask the pupils and, you as parents / guardians, to follow to ensure that the training days are successful.

On the days below, we ask you kindly to bring the bikes to school in the morning and to lock them in the biking bay we have on the junior yard. Unfortunately, we can't take any responsibility for loss or damage to any bike on the school grounds. The bikes must have working brakes on them for the pupils to take part and the pupils must bring a helmet with them to take part in the lessons.

If you would like your child to take part in the training, please read the rules and sign at the bottom, giving permission for your child to take part. We will need to receive this back by Friday please.

**Y sesiynau beicio / The cycling sessions:**

Nos Iau, Mehefin 14eg / Thursday, June 14th
Nos Iau, Mehefin 21ain / Thursday, June 21st
Nos Iau, Mehefin 28ain / Thursday, June 28th
Nos Iau, Gorffennaf 5ed / Thursday, July 5th
Nos Iau, Gorffennaf 12fed / Thursday, July 12th

Diolch / Thank you, Miss Passmore.

**Canllawiau beicio yn yr ysgol**
**Rules for pupils bringing bicycles to school.**
**Ysgol Gymraeg Cwmbrân.**

1. Rhaid i'r disgyblion gerdded gyda'r beic ar ôl cyrraedd tir yr ysgol.
*After entering the school grounds, pupils must walk with their bikes.*

2. Rhaid i'r beic gael ei gloi ar bwys y man parcio beiciau.
*Bikes must be locked to the bike stand on the yard.*

3. Rhaid i bob disgybl sy'n cymryd rhan wisgo helmed addas.
*All pupils taking part must wear a suitable helmet.*

4. Rhaid i rieni dderbyn cyfrifoldeb am ddiogelwch y disgyblion pan yn gyrru beic i'r ysgol ac adref ar ddiwedd y dydd.
*Parents have to accept full responsibility for the safety of pupils while riding the bike to and from the school.*

5. Dylai'r disgyblion fynd â'r beiciau adref ar ddiwedd bob sesiwn.
*Pupils should take their bikes home with them at the end of each session.*

6. Ni ddylai'r disgyblion ddefnyddio'r beic ar yr iard yn y bore; rhaid clymu'r beic yn syth.
*Pupils should not ride their bike on the school yard in the morning; they should lock the bike straight away.*

7. Nid yw'r ysgol yn gyfrifol am unrhyw ddifrod neu ladrad i unrhyw feic sydd ar dir yr ysgol.
*The school will not be responsible for any damage or theft to a bike when on school grounds.*

8. Rwyf wedi darllen y canllawiau uchod. Rwyf yn derbyn y canllawiau hyn ac rwyf yn hapus i'm plentyn gymryd rhan yn yr hyfforddiant beicio.
*I have read the rules above. I accept these rules and am happy for my child to take part in the Cycle Profficency Training in the school.*

Arwyddwyd / Signed: ________________________________

Enw'r plentyn / Name of child: ________________________________

Dyddiad / Date: ________________________________